

Plant Ddoe



Belfast, 1941

Bachgen y Blitz

Y STORI

Mae'r dirgelwch wedi ei leoli ym Melfast ar Ebrill 16eg 1941 - y bore ar ôl cyrch awyr trwm.

Mae Jim Moore a'i gi Champion wedi mynd ar goll. Does dim syniad gan ei Fam beth sydd wedi digwydd iddyn nhw ac mae wedi galw'r heddlu.

CEGIN



Roedd ceginau adeg y rhyfel yn waith caled. Roedd dŵr yn cael ei gynhesu gan ferwr glo. Byddai pob teulu'n cael dim ond 1 dunnell o lo y mis. Roedd potiau, llestri a sosbenni'n cael eu cadw ar silffoedd neu yn hongian ar fachau. Byddai'n rhaid coginio ar stôf nwy syml. Roedd bwyd yn cael ei gadw mewn cypyrddau oer y gallech gerdded i mewn iddyn nhw o'r enw bwtri neu bantri. Byddai'n rhaid golchi dillad â llaw gan amlaf. Pan yn lân byddai'r dillad yn cael eu gwasgu drwy'r mangl er mwyn eu sychu.

EITEMAU



Doedd dim teledu adeg y Rhyfel, ond byddai teuluoedd yn gwrando ar eu setiau radio. Roedd newyddion yn bwysig. Roedd gan y BBC ohebwyd gyda lluoedd y cynghrheiriaid oedd yn ymladd ym mhob rhan o'r byd.

Mae pytau o raglenni radio adeg y Rhyfel wedi cael eu cadw: mae rhai yn recordiadau o ddigwyddiadau pwysig iawn fel Syr Neville Chamberlain (Prif Weinidog cyfnod y Rhyfel) yn cyhoeddi cychwyn y brwydro yn erbyn yr Almaen.



Roedd yn rhaid i'r Deyrnas Unedig fewnforio nwyddau o wahanol rannau o'r byd er mwyn ymladd yn y rhyfel. Er mwyn sicrhau bod digon o fwyd a chyflenwadau i bawb, cyflwynodd y llywodraeth ddogni. Roedd gan bawb dros bump oed lyfr dogni yn llawn tocynnau. Wrth i chi brynu rhywbeth byddai'r siopwr yn marcio'r cynnyrch yn eich llyfr dogni - felly doedd dim modd defnyddio'r un tocyn ddwywaith.

Mae'r tocynnau cig wedi cael eu rhwygo allan o'r llyfr dogni yma.



Roedd hi'n anodd cael gafael ar wyau yn ystod y rhyfel felly byddai teuluoedd yn aml yn defnyddio powdwr wyau sych. Roedd un pecyn o wyau sych, fel hwn, yr un fath â dwsin o wyau go iawn.

Sut ydyn ni'n gwybod? Mae posteri yn hysbysebu wyau sych yn parhau i'w canfod mewn amgueddfeydd a llyfrau o'r cyfnod.



Mae'r ffenest hon wedi ei thorri gan ffrwydrad bom. I rwystro gwydr rhag chwythu o gwmpas roedd pobl yn rhoi tâp gludiog ar draws ffenesti.

Mae'r cerdyn sigarét yn dangos dau fath arall o ragofalon diogelwch ar ffenesti - rhwyll wifrog a gwydr plastig annhoradwy.

Roedd yn rhaid duo ffenesti hefyd fel na fyddent yn dangos unrhyw olau i awyrennau'r gelyn.

Byddai Wardeniaid Cyrchoedd Awyr yn sicrhau bod ffenesti wedi eu gorchuddio'n gywir. Roedd unrhyw un a ddangosai olau yn torri'r gyfraith.



Dyma ffurflen faciwî wedi ei chwblhau'n rhannol. Cafodd dros 750,000 o blant ar draws y Deyrnas Unedig eu hanfon i gefn gwlad ym Medi 1939 i'w cadw'n ddiogel. 'Faciwis' oedden nhw.

Erbyn Nadolig 1939 roedd y rhan fwyaf wedi dychwelyd adref gan bod dim cyrchoedd awyr wedi bod. Ym 1940 ac 1941 bomiwyd nifer o ddinasoedd a threfnwyd i blant gael eu hanfon i ffwrdd eto.

Bu'n rhaid i rieni ddewis os oedden nhw am anfon eu plant i ffwrdd neu gadw'u teuluoedd gyda'i gilydd yn y dinasoedd peryglus.

TYSTION



"Dyma'n union be' dw i angen. Mae Belfast wedi diodde cyrch awyr gwaetha'r rhyfel, miloedd wedi eu hanafu ar draws y ddinas - a nawr mae gen i blentyn ar goll yn fy ardal.

Pan holais ei fam fe wnes i ddysgu bod ei rieni wedi bod yn dadlau ynglŷn â'i anfon i gefn gwlad. Gallai Jim fod wedi eu clywed - falle'i fod e ddim eisiau mynd.

Falle bod y ci yn gliw hefyd. Mae'n fawr a does dim bwyd yn sbâr. Mae llawer o bobl wedi gorfod rhoi eu cŵn i lawr ers cychwyn y rhyfel.

Ond mae'n ymddangos bod Jim a Champion yn mynd i bob man gyda'i gilydd. Byddai'n torri ei galon petae rhywbeth yn digwydd i'r ci.

Wrth gwrs, falle mai ofni am ei fywyd mae Jim ar ôl y ffrwydradau neithiwr. Cuddio yn rhywle ymhell o'r sŵn a'r anrhefn. Gobeithio ei fod heb ei anafu.

Ond, os chi'n gofyn i fi, mae'n siŵr ei fod yn chwarae yn rhywle gyda chriw o'i ffrindiau."

Y STORI

Cegin: eitemau a welwyd yn cynnwys llyfr dogni â thudalen wedi ei rhwygo ohono, a ffurflen faciwi ag enw Jim arni. Mae'r plismon yn credu bod Jim yn chwarae gyda'i ffrindiau.

LLOCHES ANDERSON



Cafodd llochesau Cyrchoedd Awyr Anderson eu henwi ar ôl y gweinidog dros Ragofalon Cyrchoedd Awyr, Syr John Anderson. Erbyn Medi 1939 roedd 1.5 miliwn o lochesau wedi cael eu codi mewn gerddi ar draws y Deyrnas Unedig. Dim ond ychydig iawn oedd yn Belfast. Roedd y fynedfa'n cael ei gwarchod gan sgrîn haearn. Roedd y rhan fwyaf o deuluoedd yn eu gorchuddio â phridd i'w gwneud yn fwy diogel. Roedd lle i chwech o bobl ym mhob lloches.

Roedd gan rai teuluoedd heb ardd loches Morrison yn eu tai, sef caetsh haearn cryf i grobian mewn iddo.

EITEMAU



Roedd llochesau Anderson yn fach, cyfyng ac fel arfer yn llaith a'n drewi gan eu bod wedi eu claddu yn yr ardd.

Roedd teuluoedd yn ceisio'u gorau i'w gwneud yn gysurus. Cafodd rhai eu paentio i'w gwneud yn ddeniadol y tu mewn a rhoddwyd meinciau yn y rhan fwyaf. Roedd meinciau syml wedi eu gosod ar bob ochr i'r lloches, gyda llwybr cul rhyngddyn nhw. Roedd haenau o welyau bync wedi eu bolltio y tu mewn i rai eraill fel bod pawb yn gallu gorwedd lawr.



Roedd gofalu am anifeiliaid anwes yn anodd adeg y rhyfel. Oherwydd y dogni doedd dim bwyd ci tun ar gael, ac roedd hen esgyrn yn cael eu casglu o siop y cigydd a'u toddi i wneud glud.

Cafodd cannoedd o filoedd o anifeiliaid anwes eu rhoi i lawr gan fod eu perchnogion yn ofni y byddai'r cyrchoedd awyr yn codi ofn arnyn nhw.

Yn dilyn cyrch Ebrill 15fed 1941 cafodd nifer o anifeiliaid Sŵ Belfast eu difa, gan gynnwys chwech blaidd, pump arth a theigr.



Yn ystod y rhyfel roedd teganau newydd fel yr awyren yma yn anrhegion prin i blant fel Jim gan fod y ffatrioedd a oedd yn eu gwneud yn cael eu defnyddio i gynhyrchu darnau ar gyfer arfau.

Roedd plant yn arfer gwneud eu teganau eu hunain allan o ddarnau o gardfwrdd neu wllân. Roedd gemau bwrdd a chardiau yn boblogaidd, gan gynnwys hen ffefrynnau fel Liwdo a gemau newydd fel 'Vacuation'.



Roedd papur yn cael ei ddogni ond roedd comics fel Beano a Dandy yn parhau i gael eu hargraffu. Roedd prif gymeriadau fel Lord Snooty a Desperate Dan yn profi anturiaethau wrth ymladd y gelyn. Mae llawer o gomics Beano a Dandy o gyfnod y Rhyfel yn bodoli heddiw!

Roedd angen i ferched a bechgyn helpu gydag ymgyrch y rhyfel drwy weud pethau defnyddiol fel casglu papur gwastraff.



Yn ystod y rhyfel roedd pawb yn cael eu hannog i wau. Roedd mamau yn gwau dillad fel cardiganau a siwmperi i'w teuluoedd. Weithiau byddai pobl yn gwau gyda'i gilydd mewn grwpiau o'r enw cyrddau gwau. Roedd plant yn cael eu dysgu i wau a thrwsio yn yr ysgol. Roedd dosbarthiadau yn gwau sgwariau ac yn eu gwnïo at ei gilydd i wneud blancedi.

TYSTION



"1 Stôf Wersylla, Tortsh, Batris sbâr, Bisgedi...

Dw i'n gwneud y cyfan fedra i i wneud i'r lloches 'ma deimlo'n gartrefol. Dw i wedi pacio 'bag lloches' sy'n cael ei gadw ar bwys y drws cefn, yn barod i redeg os yw'r seiren yn canu. Mae'r bag yn llawn pethau sydd eu hangen arnom i oroesi'r nosweithiau hir, oer.

Cwpanau, Powlen ddŵr Champion, Dillad cynnes, Gobenyddion, 1 flanced, 2...

'Na beth od, ma' blanced Jim ar goll. Dw i'n poeni'n enaid amdano fe. Ro'n i'n meddwl falle'i fod e'n cuddio yn fan hyn, ond does dim golwg ohono fe. Ma' fe mor falch o'n lloches ni. Fe helpodd ei Dad i adeiladu'r ddau wely bync. Ma' fe'n weithiwr bach mor dda, yn benderfynol o wneud ei ran yn yr ymgyrch ryfel. Ry'n ni gyd yn gweld y lloches yn anghysurus, mae mor oer a llaith 'ma, ond mae Jim wrth ei fodd 'ma. Mae fel gwylliau gwersylla, 'na beth ma' fe'n ddweud! Felly pam fyddde fe'n rhedeg i ffwrdd? Dw i'n gwbod ei fod e'n poeni am gael ei anfon i'r wlad, ond fe ddweddes i wrtho fe, allen i ddim gwneud hynny i'm Jim bach i. Fe gadwa i fe'n saff.

Mae'n siŵr fy mod i'n poeni am ddim byd...Fel ma' Tad Tommy'n dweud, chwarae gêm guddio wirion gyda'i ffrindiau ma' fe, fwy na thebyg. Gobeithio bydd yr heddlu'n dod o hyd i Jim yn fuan.

Y STORI

Cegin: eitemau a welwyd yn cynnwys llyfr dogni â thudalen wedi ei rhwygo ohono, a ffurflen faciwi ag enw Jim arni. Mae'r heddwys yn credu bod Jim yn chwarae gyda'i ffrindiau.

Lloches Anderson: Mae blanced ar goll. Ydy Jim wedi rhedeg i ffwrdd? Pam fyddai'n gwneud hynny? Mae Mam Jim wedi dweud wrtho na fydd yn cael ei anfon i ffwrdd.

STRYD WEDI EI BOMIO



Fel hyn roedd strydoedd ar draws Belfast yn edrych ar fore Ebrill 16eg 1941.

Pan gychwynnodd cyrchoedd awyr yr Almaenwyr roedd y rhan fwyaf o ddinasoedd y Deyrnas Unedig yn barod am y gwaethaf. Roedd gan bob cyngor lleol gynllun Rhagofalon Cyrchoedd Awyr (ARP). Roedd Wardeniaid yn arwain pobl i'r llochesau ac oddi yno pan fyddai'r seirenau yn seinio. Llef hir, dreiddgar a ddanfonai ias i lawr asgwrn cefn oedd y seiren 'rybudd', tra roedd y 'caniad diogelwch' yn 'sŵn trydar hir'.

Wrth i'r bomiau ddisgyn, roedd y Wardeniaid yn ffonio stafelloedd rheoli lleol. Byddai Wardeniaid yn ffonio gydag adroddiadau am ffrwydriadau a phencadlys yr ARP yn trefnu gwasanaethau achub.

Serch hynny, doedd Belfast ddim wedi paratoi. Gan gychwyn am 10:30 y noson cynt, ymosododd 180 o fomwyr y gelyn ar y ddinas am bump awr a hanner. Fe wnaethon nhw ollwng dros 600 o fomiau a chyn hir roedd y gyfnewidfa ffôn wedi ei dinistrio. Fe dorrodd hyn bob cysylltiad ac am ran ola'r cyrch awyr roedd y ddinas heb gymorth. Cafodd dros 900 o bobl eu lladd...

EITEMAU



Cyn y rhyfel fe wnaeth 1.5 miliwn o bobl wirfoddoli fel Wardeniaid ARP neu Warchodwyr Tân. Roedd y Wardeniaid yn adnabod y rhan fwyaf o bobl yn eu hardal. Roedden nhw'n gwisgo helmedau dur i amddiffyn eu pennau. Roedd 'W' fawr wedi ei phaentio ar flaen yr helmed. Gan fod y cyrchoedd awyr mor swnllyd byddai Wardeniaid yn defnyddio chwiban neu gloch er mwyn denu sylw.



Yn ystod y blacowt roedd hi'n anodd i yrwyr weld y ffordd achos dim ond y goleuadau bach roedden nhw'n cael eu defnyddio. Fe achosodd hyn lawer o ddamweiniau a marwolaethau, felly cafodd y rheolau eu newid. Roedd modurwyr yn cael cadw eu prif oleuadau wedi eu gostwng, cyn belled â bod gorchuddion â holltau bychan ar y lampau. Cafodd llinellau gwyn eu paentio ar ganol ffyrdd, ar y pafin a bympars ceir i'w gwneud yn haws gweld.



Cafodd bron i 40 miliwn o fygydau nwy eu dosbarthu erbyn 1939. Roedd yn rhaid eu cario bob amser rhag ofn byddai ymosodiad nwy. Roedd mygydau 'Mickey Mouse' gan blant a doedden nhw ddim yn eu dychryn gymaint. Roedd yn rhaid i'r plant ymarfer gwisgo'u mygydau yn gyflym.

Felly, sut ydyn ni'n gwybod? O luniau o blant yn gwisgo mygydau nwy adeg y rhyfel. Mae recordiadau sain o athrawon yn cyfarwyddo plant mewn ymarfer mwgwd nwy ar gael hefyd.



Mae'n rhaid bod y bocs arian metel yma wedi dod o dŷ oedd ar dân. Mae'r bocs a'r darnau arian wedi toddi gyda'i gilydd yng ngwres y tân. Cafodd miloedd o adeiladau Belfast eu niweidio adeg cyrch Dydd Mawrth y Pasg. Collodd ambell deulu eu holl eiddo. Fe dalodd y llywodraeth iawndal ond roedd hi'n anodd dod o hyd i gartref arall a dechrau eto.



Tag adnabod i'w roi ar gorff yw hwn. Roedd Wardeniaid yn clymu tag ar bob person marw, yn rhestru manylion personol, yr anafiadau a achosodd iddyn nhw farw a'r man lle cafodd y corff ei ddarganfod.

Roedd Belfast ond wedi paratoi ar gyfer 200 o farwolaethau mewn un cyrch ond cafodd 900 o bobl eu lladd yn ystod cyrch Dydd Mawrth y Pasg. Cafodd cyrffdai (llefydd i gadw'r bobl

wedi marw) eu hagor yn y Baddonau Cyhoeddus a Marchnad Sant Siôr.

TYSTION



"Dw i mor flinedig, ac eisie mynd adre' i grio. Ryn ni wedi bod yn tynnu pobl sydd wedi marw a'u hanafu allan o'r rwbel ers oriau. Os ydw i'n stopio gweithio mae 'nwylo i'n dechrau crynu, a dw i'n ei chael hi'n anodd ysgrifennu. Fedra i ddim dal beiro. Fedra i ddim llenwi tag i'w roi ar gorff hyd yn oed. Mae'n erchyll gorfod edrych am gerdyn adnabod ar bob corff - neu chwilio yn eu dillad i weld os oes enw wedi ei wnïo yno.

Gofynnwyd i mi gadw golwg am fachgen sydd wedi rhedeg i ffwrdd - Jim Moore. Mae ei Fam wedi chwilio pob twll a chornel o'r stryd amdano. Poeni ei henaid, druan fach. Dim hon yw fy ardal i - felly dw i ddim yn 'nabod Jim. Dw i'n gwneud yn siŵr 'mod i'n 'nabod yr holl blant wrth eu henwau cyntaf yn fy ardal i. Gobeithio bod y bachgen bach yn saff. Ryn ni wedi tynnu llawer o blant allan o'r rwbel heddiw a dw i wedi anfon llawer o blant sy'n cydfynd â'r disgrifiad o Jim i'r ysbyty. Ond hyd yn hyn dw i'n meddwl i ni lwyddo i adnabod pawb. Gadewch i fi feddwl...

Arhoswch funud! Fe wnes i weld bachgen a'i gi yn mynd ar hyd y stryd. Fe wnaethon nhw droi i mewn wrth glwyd yr ysgol - tua awr yn ôl. Fe oll yngodd ei fwgwd nwy. Fe wnes i weiddi arno ond ddaeth e ddim yn ôl. Falle dylwn i fynd i weld os oes enw arno..."

Y STORI

Cegin: eitemau a welwyd yn cynnwys llyfr dogni â thudalen wedi ei rhwygo ohono, a ffurflen faciwi ag enw Jim arni. Mae'r plismon yn credu bod Jim yn chwarae gyda'i ffrindiau.

Lloches Anderson: Mae blanced ar goll. Ydy Jim wedi rhedeg i ffwrdd? Pam fyddai'n gwneud hynny? Mae Mam Jim wedi dweud wrtho na fydd yn cael ei anfon i ffwrdd.

Stryd wedi ei bomio: Gwelodd Warden ARP fachgen a'i gi yn mynd tuag at yr ysgol. Cafodd mwgwd nwy gyda J.M. arno ei ddarganfod. Roedd y bachgen ar frys, wnaeth e ddim aros pan waeddodd Warden ARP arno.

YR YSGOL



Roedd y rhan fwyaf o stafelloedd dosbarth adeg y rhyfel dal i edrych yn debyg i ddosbarthiadau 50 mlynedd ynghynt. Roedd disgyblion yn eistedd wrth ddesgiau mewn rhesi, dwy gadair wrth bob desg, a phawb yn wynebu desg yr athro.

Byddai gwaith yn cael ei ysgrifennu ar y bwrdd du er mwyn i'r disgyblion ei gopïo, ac roedd yn rhaid dysgu llawer o bethau, fel tablau a cherddi, ar y cof. Byddai athrawon blin yn taflu sychwyr bwrdd du at blant a oedd yn siarad, gan wneud iddyn nhw ddiplannu mewn cwmwl o lwch sialc

Roedd plant ifanc yn parhau i ymarfer eu llawysgrifen ar lechi a allai gael eu sychu'n lân. Roedd plant hŷn yn defnyddio peniau â nibiau o ddur a photiau inc. Byddai'r monitor yn llenwi'r potiau inc bob bore.

Roedd gan athrawon rôl bwysig i'w chwarae yn y rhyfel, drwy gysuro plant oedd yn gofidio oherwydd y cyrchoedd awyr neu newyddion drwg am berthnasau. Roedden nhw hefyd yn annog eu dosbarthiadau i helpu gydag ymgyrch y rhyfel trwy gasglu mwyar yr hydref i wneud jam, neu gasglu papur gwastraff i gael ei ailgylchu.

EITEMAU



Ar y pryd yr Ymerodraeth Brydeinig oedd y fwyaf yn y byd gyda phoblogaeth o tua 500 miliwn. Mewn rhai rhannau o'r Deyrnas Unedig roedd Diwrnod yr Ymerodraeth yn cael ei ddathlu ar Fai 24ain. Byddai plant yn perfformio pasiantau ac yn gwisgo fel gwahanol bobl o'r Ymerodraeth - Mowntis o Ganada, er enghraifft. Wedyn bydden nhw'n mwynhau danteithion arbennig, fel diod sinsir a byns. Daeth milwyr o bob rhan o'r Ymerodraeth i frwydro dros y Cynghreiriaid yn erbyn yr Almaen ac, yn ddiweddarach, Siapan.



Yn yr 1930au roedd llawer o ddiweithdra a thlodi yn y Deyrnas Unedig. Ym 1937 dechreuodd y llywodraeth roi llaeth am ddim i blant o gartrefi tlawd. Roedd hyn yn gymorth i roi deiet well iddyn nhw.

Roedd y llaeth yn cael ei ddosbarthu mewn caniau mawr fel y rhain ac yn cael eu tywallt i wydrau i'r plant. Roedd llaeth am ddim yn ffynhonnell bwysig o faeth i blant adeg y rhyfel.



Roedd poblogaeth iach yn bwysig ar gyfer ennill y rhyfel. Fe wnaeth y llywodraeth ddosbarthu taflenni fel 'War on Disease' i famau ac athrawon. Roedd y daflen yn cynnig cyngor ymarferol ar rwystro heintiau ac yn cynnwys y llinell enwog 'tisian a pheswch sy'n lledu salwch'.

Roedd llawer o afiechydon plant megis asthma, polio, y pâs a'r dwymyn goch yn parhau yn anodd i'w trin, ac yn gallu lladd, hyd yn oed.



Roedd cadw cofrestr gywir yn bwysig yn ystod y rhyfel. Adeg cyrch awyr roedd yn rhaid i'r athrawon wybod bod yr holl blant wedi cael eu hebrwng i'r llochesau. Ond roedd amodau'r rhyfel yn ei gwneud hi'n anodd i athrawon gadw cofnod o'u disgyblion.

Cafodd llawer o blant ysgol eu hanfon i gefn gwlad - ond arhosodd rhai plant gartref, heb fynd i'r ysgol am fisoedd. Roedd rhieni yn aml yn trefnu eu hunain i anfon eu plant i ffwrdd, ond heb drafferthu dweud wrth y ysgol.



Roedd tennyn fel hwn yn cael ei ddefnyddio er mwyn mynd â chŵn am dro adeg y blacowt. Roedd llyfr cyngor adeg y rhyfel yn cynghori:

'Rhowch rhywbeth gwyn ar y ci, defnyddiwch dennyn byr gwyn neu lachar a chadwch yn glir o strydoedd prysur.'

Byddai wedi bod yn anarferol dod o hyd i dennyn mewn ysgol.

TYSTION



"Fe ddes i i'r ysgol cyn gynted ag y gallwn i weld faint o ddifrod wnaeth y bomiau. Doedd hi ddim yn hawdd teithio ar draws y ddinas. Doedd y tramiau ddim yn rhedeg felly roedd yn rhaid i fi gerdded yn y diwedd. Dw i'n lwcus iawn. Dw i'n byw ar gyrion y ddinas a chafodd fy ardal i ddim ei tharo. Dyw'r ysgol ddim yn rhy wael ac ar ôl glanhau ac atgyweirio fe ddylem ni fod yn barod i agor ar ôl y gwyliau. Er hynny mae pethau amheus yn digwydd a dw i wedi galw'r heddlu. Dw i'n credu falle bod ysbeilwyr wedi torri i mewn. Falle'u bod nhw'n trio dwyn fy sialc i!"

Roedd ffenest fawr wedi cael ei thorri - ond fedra i ddim dweud os cafodd ei thorri gan ffrwydriad neu gan frics sy'n gorwedd y tu mewn. Roedd bin sbwriel wedi ei lusgo yn erbyn y wal, ac roedd yn ymddangos fel bod rhywun wedi dringo i mewn. Roedd gwaed ar y silff ffenest ac olion traed yn y llwch ar hyd y prif goridor. Ac yn rhyfedd iawn, olion pawennau hefyd. Pam fyddai rhywun yn torri i mewn i fy ysgol gyda'u ci? Mae braidd yn rhyfedd - bydd yn rhaid i mi gofnodi'r peth yn y Llyfr Lög."

Y STORI

Cegin: eitemau a welwyd yn cynnwys llyfr dogni â thudalen wedi ei rhwygo ohono, a ffurflen faciwi ag enw Jim arni. Mae'r plismon yn credu bod Jim yn chwarae gyda'i ffrindiau.

Lloches Anderson: Mae blanced ar goll. Ydy Jim wedi rhedeg i ffwrdd? Pam fyddai'n gwneud hynny? Mae Mam Jim wedi dweud wrtho na fydd yn cael ei anfon i ffwrdd.

Stryd wedi ei bomio: Gwelodd Warden ARP fachgen a'i gi yn mynd tuag at yr ysgol. Cafodd mwgwd nwy gyda J.M. arno ei ddarganfod. Roedd y bachgen ar frys, wnaeth e ddim aros pan waeddodd Warden ARP arno.

Stafell ddosbarth: Mae rhywun wedi torri i mewn i'r ysgol yn ystod gwyliau'r Pasg. Mae tennyn gwyn wedi ei ddarganfod yno.

BARN YR ARBENIGWR

Wrth edrych ar y dystiolaeth rydw i'n credu y gallaf ddatrys yr hyn ddigwyddodd. Fe wnaeth y cliwiau hyn i mi feddwl:

A. Mae'r llyfr dogni wedi ei rwygo yn dangos fod Jim eisiau cuddio am beth amser efallai, ac yn gobeithio defnyddio'r tocynnau dogni er mwyn prynu bwyd.

B. Mae'r flanced goll yn gwneud i mi feddwl yr un fath: roedd Jim wedi meddwl ynglŷn â chadw'n gynnes a chysgu.

C. Mae'r mwgwd nwy a gafodd ei ollwng yn dangos fod Jim ar frys. Efallai ei fod yn poeni y byddai'r Warden yn ei holi i ble roedd yn mynd.

CH. Ac yn olaf, roedd tennyn gwyn yn y stafell ddosbarth. Ai tennyn Champion yw e? Byddai dosbarth gwag yn sicr yn le da i guddio.

Rydych chi'n gwybod na allwn ni fyth fod 100 y cant yn siŵr am ddigwyddiadau yn y gorffennol, ond dyma ddigwyddodd, fwy na thebyg, i Jim Moore a'i gi ffyddlon, Champion...



Prifathro: Fe wnes i adael neges yn swyddfa'r heddlu. Roeddwn i'n poeni fod ysbeilwyr wedi torri i mewn a'u bod am ddwyn mwy na fy sialc yn unig. Cyflenwad glo yr ysgol, yn un peth.



Warden: Fe edrychais i ar y tag enw ar y mwgwd nwy a gafodd ei ollwng. 'Jim Moore' oedd arno. Fe wnes i ddanfôn neges at swyddfa'r heddlu yn dweud fy mod i wedi ei weld yn troi i mewn wrth glwyd yr ysgol.



Plismon: Fe es i ati ar ôl clywed negeseuon y Warden a'r Prifathro. Roedd yr olion traed yn arwain at un o'r stafelloedd dosbarth. Yno fe welais dennyn gwyn. Roedd Tommy'n cysgu yn y cwpwrdd stoc gyda Champion drws nesaf iddo.



Dw i'n falch o ddweud ei fod heb dorri i mewn i'r ysgol. Dringo i mewn drwy ffenest fawr wedi ei thorri wnaeth e - a thorri ei hun ar ei goes. Bydd angen pwythau arno. Roedd Tommy'n credu y gallai guddio yma am rai dyddiau achos bod yr ysgol ar gau dros y Pasg.



Mam: Roeddwn i'n meddwl mod i'n clywed Jim a Champion yn y cyntedd pan oeddwn i'n siarad â Mrs Jones. Buodd y bachgen gwirion yn gwrando ar sgyrsiau y dylai ddim fod wedi eu clywed. Fe wnaeth e redeg i ffwrdd am ei fod e'n credu ein bod ni am roi Champion i ffwrdd



Rydw i wedi addo y byddwn ni'n ei gadw, ond mae'n rhaid i Jim ysgrifennu llythyrau yn ymddiheuro i'r Plismon, y Warden a'r Prifathro.